



Cyfarfod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

21 Chwefror 2014

Ystafell Y Pwllgor

Yn Bresennol

Ioan Evans (IE) - Llywydd UMABer, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
Laura Dickens (LD) - Swyddog Cefnogaeth i Fyfyrwyr ac Ymddiriedolwr UMABer
Grace Burton (GB) - Swyddog Addysg ac Ymddiriedolwr UMABer
Olivia Prewett (OP) - Swyddog Gweithgareddau Myfyrwyr ac Ymddiriedolwr UMABer
Stephen Meachem (SM) - Ymddiriedolwr Allanol UMABer
Joshua James (JJ) - Ymddiriedolwr Israddedigion UMABer
Christopher Lloyd-Jones (CLJ) Ymddiriedolwr Ôl-raddedigion UMABer
John Glasby (JG) - Prif Weithredwr UMABer
Catrin Hopkins (CH) - Swyddog Cyllid
Andrew Morwood (AM) - Rheolwr Gwasanaethau'r Aelodaeth UMABer

Staff Cynorthwyol

Annmarie Evans - Clerc i Fwrdd Ymddiriedolwyr UMABer.

1. **Ymddiheuriadau am Absenoldeb** Mared Ifan (MI) - Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr, Elfyn Jones (EJ) - Ymddiriedolwr Allanol UMABer, Estelle Hart (EH) - Ymddiriedolwr Allanol UMABer

2. **Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod** a gynhaliwyd ar 22^{ain} Tachwedd 2013
Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 22^{ain} Tachwedd 2013 yn gofnod cywir.
Cyflwynwyd gan: GB
Eilydd: OP

3. Materion yn Codi

Nododd IE, yn ystod y cyfarfod diwethaf y gofynnwyd i Adroddiadau'r Swyddogion gael eu cysylltu ag Arwyddion Perfformiad Allweddol (APA), ond gofynnodd am eglurhad, gan nad oedd Swyddogion wedi eu cysylltu â'r rhain. 'Roedd yr adroddiadau a gyflwynwyd, yn hytrach wedi eu cysylltu ag addewidion maniffesto. Cytunwyd y byddai Adroddiadau Swyddogion yn y dyfodol yn cael eu cysylltu ag APA Swyddogion fel y nodir yn y cyfansoddiad.

Gweithredu - Swyddogion

Hysbysodd IE y grŵp, oherwydd y tywydd garw yn diweddar, na fu modd i'r Swyddogion gyfarfod â myfyrwyr i egluro pa fath o ddigwyddiadau maent eu heisiau. Nododd y Bwrdd yr hoffent i hyn ddigwydd ar ffurf arolwg wedi ei strwythuro gan y staff. Dywedodd JG y byddai Jamie Barker a Tony Bickley yn gwneud hyn. Bydd JG yn darparu'r Bwrdd â'r canlyniadau gynted y byddant ar gael.

Gweithredu - JG

Ni fu ymgynghoriad â'r myfyrwyr parthed y cynnig gan Spar a wnaed yn y Cynulliad, fel y cytunwyd yn wreiddiol. Caiff hwn nawr ei ddwyn ger bron y

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym Mai gan y Llywydd. Unwaith y bydd y Swyddogion wedi codi'r mater ac wedi casglu adborth gan fyfyrwyr, bydd y Bwrdd yn cytuno drwy e-bost.

Gweithredu - IE/JG

4. Adroddiadau'r Swyddogion

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd ddarllen dros yr adroddiadau a ddarparwyd gan y Swyddogion. Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r diffyg diddordeb ar ran Myfyrwyr Hŷn mewn ymgeisio ar gyfer swyddi. Nodwyd fod hyn yn rhan o adolygiad ehangach i edrych ar sut 'rydym yn denu myfyrwyr i ymgeisio ar gyfer swyddi etholedig.

Nodwyd hyn.

5. Adroddiad Cyllidol

Aeth CH drwy'r adroddiad a gyflwynwyd ganddi'n flaenorol, a nododd mai'r maes risg ar hyn o bryd yw Dyledion Drwg. Esboniodd, oherwydd cynnydd yn ei baich gwaith a'r safleoedd adwerthu bwyd/diod, fod y Dyledion Drwg wedi cael eu gosod o'r neilltu. Serch hynny, maent yn bwriadu gweithio drwy'r rhain gynted â phosibl.

Gweithredu - CH

6. Cyllideb 2014/15

Darparodd CH y Bwrdd â'r Gyllideb arfaethedig ar gyfer 2014/15 a gofynnodd iddynt i'w chymeradwyo. Cynhaliwyd gwahanol drafodaethau ynglŷn â niferoedd myfyrwyr a'r effaith o gael myfyrwyr yn Llanbadarn. Esboniodd JG na all y Brifysgol roddi amcangyfrifon cywir o niferoedd myfyrwyr oherwydd newidiadau yn nhirwedd recriwtio mewn AU yn dilyn cyllideb yr hydref a diddymu'r cap ar niferoedd yn Lloegr. Felly rhaid i ni ddyfalu y bydd niferoedd myfyrwyr yr un fath eleni ac ymateb yn unol â hynny os nad ydynt. Cytunodd y Bwrdd yn unfrydol i gymeradwyo'r Gyllideb ar gyfer 2014/15.

Cymeradwywyd

Gadawodd CH y 'stafell.

7. Adroddiad ar Wasanaethau'r Aelodaeth

Esboniodd AM fod ei APA yn rhan o'r Cynllun Gweithredu a gyflwynwyd gan JG, a holodd os oedd y Bwrdd angen adroddiad ysgrifenedig yn ogystal. Cytunodd y Bwrdd nad oedd angen am adroddiad ysgrifenedig.

Darparodd AM y Bwrdd â'r diweddaraf ar Etholiadau, gan nodi fod enwebiadau wedi cau ac yr enwebwyd 22 ymgeisydd ar gyfer swyddi llawn-amser, o gymharu â 17 llynedd. Nododd hefyd ei fod yn siomedig â'r canlyniad ar gyfer swyddi rhan-amser, a bod hyn yn rhywbeth mae angen iddynt edrych i mewn iddo.

Mae Gweithgareddau'n gwneud gwaith gwych a gwerthodd SuperTeams allan mewn 7 munud, gyda'r menywod yn gwerthu allan mewn 1 funud.

Esboniodd hefyd fod y tywydd garw a gafwyd yn ddiweddar wedi effeithio ar

chwaraeon, ond eu bod yn gweithio'n galed i sicrhau fod gemau a drefnir drwy BUCS yn mynd rhagddynt.

Cynigion - Darparwyd papur ar oblygiadau ariannol a gweithredol y cynnig i wneud clybiau a chymdeithasau'n gwbl ddwyieithog. Er y cynhaliwyd trafodaethau ynglŷn â hyn, cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ohirio am y tro hyd gyfarfod nesaf yr Ymddiriedolwyr, pan fydd Llywydd UMCA'n bresennol, gobeithio.

Gweithredu - AM/AE i sicrhau ei fod ar yr agenda

Hefyd hysbysodd AM y Bwrdd ei bod wedi bod yn gyfnod prysur yn yr adran Gynghori oherwydd materion yn ymwneud â chanlyniadau arholiadau a gwaith cwrs, a'u bod yn aros i hyfforddwyr fynd drwy'r gronfa-ddata Gynghori gyda'r cynghorwyr.

Nododd hefyd fod y Gynhadledd Cynrychiolwyr Academaidd wedi mynd yn eithriadol o dda a'i fod yn ystyried y posibilrwydd o'i ymestyn i gyrraedd pob maes o fewn i'r Undeb.

Nodwyd hyn

8. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd JG grynodedb o'r adroddiad a gyflwynwyd ganddo eisoes. 'Roedd ei adroddiad yn ymdrin â Datblygiadau Masnachol, Graddfeydd Diogelwch Bwyd a Chyfieithu. Esboniodd, yn unol â chais gan yr Ymddiriedolwyr, fod ei adroddiad nawr yn fyrrach a'i fod yn seiliedig ar yr adolygiad o APA/Cynllun Gweithredu newydd. Cytunodd y Bwrdd fod yr adroddiad yn ei gwneud yn llawer haws i'w ddarllen a chaiff ei ddarparu ym mhob cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr.

Gofynnodd JJ pwy oedd yn gyfrifol am archebu alcohol yn y siop, gan ei fod yn credu fod yno dewis diddorol, ond nad oedd y math o alcohol y byddai myfyrwyr yn ei brynu yn ei farn ef. Dywedodd JG mai mater gweithredol oedd hwn ac y byddai'n pasio ei sylwadau ymlaen i reolwr y Siop.

9. Adolygiad Perfformiad Staff a Chyflogau

Gofynnwyd i AM ac AE i adael y 'stafell tra cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â chynnig JG. Pleidleisiodd OP, CLJ, LD, GB a JJ dros Opsiwn 3 ond ymatalodd SM ei bleidlais.

Gweithredu - JG i wneud hyn

Dychwelodd AM ac AE i'r cyfarfod.

10. Adborth o'r Cyfarfod Llywodraethu a Democratiaeth

Hysbysodd AM y grŵp fod cyfarfod wedi ei gynnal ar 20^{fed} Chwefror i drafod llywodraethu a democratiaeth fewnol, er i'r cyfarfod ganolbwyntio ar ddemocratiaeth yn unig. Gofynnwyd i'r ymddiriedolwr i ystyried dulliau llai

ffurfiol ar gyfer swyddogion sy'n dymuno ymgymryd â swyddi o fewn i'r Undeb, nad oeddynt yn cynnwys refferendwm a'r cynulliad fel eu prif ffocws. Cytunwyd y byddai'r Cynnig Llywodraethu Mewnol yn cael ei ddarparu.

11. Unrhyw Fater Arall

Cyfrifon Cyllidol 2011/12 - Archwiliad

Cynigiodd IE newid y dyddiad y byddai'r Cyfansoddiad yn dod i rym o'r 26^{ain} Mehefin 2012 i'w 1^{af} Gorffennaf 2012, gan mai camgymeriad gweinyddol oedd hwn.

Cytunodd y bwrdd yn unfrydol i hyn

Darparodd OP y grŵp ag adroddiad mae hi wedi ei gwblhau - adolygiad o'r berthynas rhwng Undeb Myfyrwyr Aberystwyth a chanolfan Chwaraeon Prifysgol Aberystwyth.

Esboniodd OP y sail ar gyfer ei hadroddiad a gofynnodd i'r Bwrdd ystyried yr opsiynau a gyflwynwyd ganddi. Ar ôl trafodaeth fanwl, cytunodd y Bwrdd i gefnogi Opsiwn 1 hyd nes y gellir gweithredu Opsiwn 2.

Cytunodd y Bwrdd yn unfrydol i hyn

Cytunwyd y byddai IE, OP a JG yn cyfarfod â Rhodri Llwyd Morgan o'r Brifysgol i drafod yr adroddiad uchod.

Hysbysodd CLJ y grŵp fod y Pwyllgor Cyflogau wedi cyfarfod cyn cyfarfod yr Ymddiriedolwyr, gan argymhell y canlynol:

Byddai cyflogau'r swyddogion yn cynyddu i bwynt 8 ar Raddfa Gyflogau'r Brifysgol, sef £16,252 y flwyddyn, gan ddechrau o 1^{af} Ionawr 2014.

Bydd dyddiad cyfarfod nesaf yr Ymddiriedolwyr yn newid o'r 9th Mai, gan y byddai hynny'r un diwrnod â'r Ddawns Fai. AE i gadarnhau.

Cyfarfod nesaf i'w gadarnhau